**PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**CYNGOR**

Cofnodion o gyfarfod hybrid y Cyngor a gynhaliwyd Dydd Mercher, 18 Ionawr 2023 am 5.00 pm.

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol – Roedd y Cynghorwyr canlynol yn bresennol yn Siambr y Cyngor:-**

Y Cynghorydd G Hughes (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Sheryl Evans | Y Cynghorydd P Binning |
| Y Cynghorydd S Bradwick | Y Cynghorydd J Brencher |
| Y Cynghorydd G Caple | Y Cynghorydd A Crimmings |
| Y Cynghorydd S J Davies | Y Cynghorydd R Davis |
| Y Cynghorydd E L Dunning | Y Cynghorydd S Emanuel |
| Y Cynghorydd B Harris | Y Cynghorydd S Hickman |
| Y Cynghorydd G Holmes | Y Cynghorydd W Hughes |
| Y Cynghorydd K Johnson | Y Cynghorydd G O Jones |
| Y Cynghorydd W Jones | Y Cynghorydd R Lewis |
| Y Cynghorydd W Lewis | Y Cynghorydd C Leyshon |
| Y Cynghorydd M Maohoub | Y Cynghorydd A Morgan |
| Y Cynghorydd N H Morgan | Y Cynghorydd Owen-Jones |
| Y Cynghorydd M Powell | Y Cynghorydd S Trask |
| Y Cynghorydd M Webber | Y Cynghorydd R Williams |

**Roedd y Cynghorwyr canlynol yn bresennol ar-lein:-**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd B Stephens | Y Cynghorydd L Addiscott |
| Y Cynghorydd M Ashford | Y Cynghorydd J Barton |
| Y Cynghorydd R Bevan | Y Cynghorydd J Bonetto |
| Y Cynghorydd J Cook | Y Cynghorydd A Dennis |
| Y Cynghorydd V Dunn | Y Cynghorydd J Edwards |
| Y Cynghorydd J Elliott | Y Cynghorydd A J Ellis |
| Y Cynghorydd L Ellis | Y Cynghorydd D Evans |
| Y Cynghorydd P Evans | Y Cynghorydd Sera.Evans |
| Y Cynghorydd D Grehan | Y Cynghorydd H Gronow |
| Y Cynghorydd G Hopkins | Y Cynghorydd G Jones |
| Y Cynghorydd C Lisles | Y Cynghorydd C Middle |
| Y Cynghorydd K Morgan | Y Cynghorydd S Morgans |
| Y Cynghorydd W Owen | Y Cynghorydd M Norris |
| Y Cynghorydd D Parkin | Y Cynghorydd S Rees |
| Y Cynghorydd A Roberts | Y Cynghorydd A O Rogers |
| Y Cynghorydd J Smith | Y Cynghorydd G Stacey |
| Y Cynghorydd W Treeby | Y Cynghorydd G L Warren |
| Y Cynghorydd K Webb | Y Cynghorydd G E Williams |
| Y Cynghorydd T Williams | Y Cynghorydd D Wood |
| Y Cynghorydd R Yeo | |

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr P Mee, Prif Weithredwr
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

**Ymddiheuriadu am absenoldeb**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd R Evans | Y Cynghorydd A Fox |
| Y Cynghorydd S Powderhill | Y Cynghorydd C Preedy |
| Y Cynghorydd L A Tomkinson | Y Cynghorydd J Turner |
| Y Cynghorydd D Williams | |

**63 Croeso ac Ymddiheuriadau**

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod a derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol R Evans, A S Fox, C Preedy, S Powderhill, L Tomkinson, J Turner a D Williams.

**64 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

**ITEM 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL CRONFA DEDDF EGLWYS CYMRU 2021/22**

Y Cynghorydd W. Treeby – “Rydw i’n eistedd ar ddau bwyllgor sy’n derbyn arian gan Gronfa Deddf Eglwys Cymru”

Y Cynghorydd M. Maohoub – “Rydw i'n aelod o un o’r pwyllgorau sy’n derbyn cyllid gan Gronfa Deddf Eglwys Cymru”

Y Cynghorydd D. Grehan – “Rydw i'n eistedd ar bwyllgor sydd wedi derbyn arian gan Gronfa Deddf Eglwys Cymru eleni."

Y Cynghorydd A. Morgan – “Rydw i'n ymwneud yn uniongyrchol â dau bwyllgor sy’n derbyn cyllid ac rydw i wedi helpu grŵp arall gyda’r cais am arian”

Y Cynghorydd G. Jones – “Fi yw Cadeirydd Llyfrgell Rydd a Sefydliad Trecynon, sy’n derbyn cyllid”

Y Cynghorydd D. Owen-Jones – “Mae Parc Sglefrio Tonyrefail yn derbyn cyllid gan Gronfa Deddf Eglwys Cymru"

**ITEM 15. ADOLYGIAD O STRWYTHUR UWCH ARWEINWYR Y CYNGOR**

Dywedodd y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cyfreithiol, y byddai'r Prif Swyddogion a oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn datgan buddiant personol o ran Eitem 15 ar yr Agenda, 'Strwythur Uwch Arweinwyr y Cyngor'. Bydd y Prif Swyddogion yn gadael y cyfarfod pan fydd y Cyngor yn trafod yr eitem, ac eithrio'r Prif Weithredwr, sef awdur yr adroddiad a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, a fydd yn cyflwyno'r adroddiad ac yn ateb unrhyw gwestiynau am y

weithdrefn.

**65 COFNODION**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd y Cyngor a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2022 am 3.30pm a 5.00pm yn rhai cywir yn amodol ar nodi bod y Cynghorydd H. Gronow yn bresennol am 3.30pm a bod y Cynghorydd Amanda Ellis yn bresennol ar-lein.

**Materion yn Codi** – Fel y codwyd gan y Cynghorydd P. Evans ac a gadarnhawyd gan Arweinydd y Cyngor yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2022 am 3.30pm, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu y byddai gwahoddiad yn cael ei anfon at Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i fynychu cyfarfod o'r Cyngor llawn yn y dyfodol. Byddai'r dyddiad yn cael ei ystyried yn unol ag anghenion busnes y Cyngor ac mewn ymgynghoriad â'r Llywydd ond mae'n debygol y byddai'n cael ei gynnal fel cyfarfod arbennig o'r Cyngor.

**66 Cyhoeddiadau**

Cafodd y cyhoeddiadau canlynol eu gwneud:

- Cyhoeddodd y Cynghorydd M Webber fod Mr Chris Bryant, Aelod Seneddol y Rhondda a Chadeirydd Pwyllgor Safonau Tŷ'r Cyffredin, wedi cael ei urddo'n farchog am ei Wasanaeth i Wleidyddiaeth a Bywyd Cyhoeddus, a bod y Cynghorydd A. Roberts - sy'n cynrychioli Gilfach-goch - hefyd wedi derbyn MBE am ei gwasanaeth.
- Roedd y Cynghorydd S. Bradwick yn dymuno llongyfarch Dr Mike Thomas a gafodd MBE am ei wasanaethau i Gorau Meibion Cymreig Cwm Pelenna a Chwm Cynon yn rhestr Anrhydeddau'r Brenin. Canmolodd waith Dr Mike Thomas yn y gymuned yn gweithio gyda llawer o gantorion yng nghorau Pelenna, Cwmdâr a Chwm-bach, a chodi arian i lawer o elusennau hefyd.
- Fe wnaeth y Cynghorydd S. Bradwick hefyd gyhoeddiad am farwolaeth drist Mrs Margaret Blainey, cyn-swyddog gyda Chartrefi Gladlys a Tegfan yng Nghwm Cynon. Dywedodd ei bod hi'n Swyddog rhagorol.
- Cyflwynodd y Cynghorydd D. Owen-Jones ddeiseb ar ran trigolion Tonyrefail yn nodi pryderon amgylcheddol ynghylch datblygiad lleol.

**67 Datganiadau**

**Datganiad gan Arweinydd y Cyngor:**

Diolchodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd A. Morgan, i staff y Cyngor am eu gwaith caled yn ystod y cyfnod o dywydd garw a llifogydd yn ddiweddar. Er nad oedd y sefyllfa mor ddifrifol â Storm Dennis, cofnodwyd 104mm o law dros gyfnod o 24 awr yng Nghwmdâr a Maerdy, gyda chyfanswm o 60 eiddo, gan gynnwys eiddo masnachol, yn profi llifogydd. Cafodd nifer o eiddo yn Stryd y Taf, Pontypridd, lifogydd islawr oherwydd bod draeniau'n gorlifo, a chafodd eiddo eraill mewn ardaloedd anghysbell lifogydd hefyd. Cadarnhaodd yr Arweinydd fod y diweddariadau yma wedi'u trosglwyddo i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn rhinwedd ei swydd fel yr awdurdod rheoli llifogydd.

Dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor wedi buddsoddi'n sylweddol mewn uwchraddio cwlfertau ers Storm Dennis (a hynny ar wahân i'r £20 miliwn o atgyweiriadau a wnaed o ganlyniad i gyllid gan fuddsoddiad Llywodraeth Cymru). Llwyddodd cwlfert a gafodd ei uwchraddio i wrthsefyll y lllifogydd diweddar. Ychwanegodd fod y Cyngor yn ddiweddar wedi cyflwyno ceisiadau ar gyfer prosiectau rheoli perygl llifogydd i Lywodraeth Cymru. Mae'r ceisiadau yn gofyn am gyfanswm o £8 miliwn, a fydd yn cael arian cyfatebol pe bai'r ceisiadau'n cael eu cymeradwyo.

Diolchodd yr Arweinydd i'r staff am eu hymroddiad a dywedodd fod staff ar sawl achlysur wedi bod yn gweithio drwy'r nos/bore yn graeanu'r ffyrdd oherwydd tymheredd isel. Dywedodd hefyd fod nifer o gontractwyr wedi bod yn cefnogi staff y Cyngor gyda'r dyletswyddau yma i sicrhau eu bod nhw'n cymryd y seibiannau gofynnol. Dywedodd yr Arweinydd fod gwaith hefyd wedi'i wneud ar yr A4048 yn Nhonypandy, lle mae staff yn aml wedi bod yn gweithio drwy'r nos i oresgyn y problemau ar y ffordd ac wedyn yn ailafael yn eu dyletswyddau yn graeanu'r ffyrdd.

Yn wyneb rhywfaint o feirniadaeth o ran y gwaith graeanu a'r achosion o gau'r ffyrdd mynyddig o bryd i'w gilydd, roedd yr Arweinydd yn dymuno diolch i'r staff am eu gwaith caled yn graeanu ffyrdd ac arwynebau yn ystod tywydd rhewllyd a thymheredd isel, a hynny mewn amodau gyrru a oedd yn aml yn beryglus.

## 68 Cwestiynau gan yr Aelodau

Nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu y bydd cwestiwn 7 yn cael ei hepgor o ganlyniad i absenoldeb Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Powderhill.

**1. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol K. Johnson i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd a Gwasanaethau Corfforaethol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol T. Leyshon:**

*"Oes modd i chi gyhoeddi pryd fydd y pwyntiau gwefru cerbydau trydan sy wedi'u gosod ledled y fwrdeistref sirol, gyda chymorth ariannol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, yn weithredol? Mae'r asedau yma wedi bod yn segur am gyfnod sylweddol ar ôl iddyn nhw gael eu gosod, ac mae'r ddarpariaeth ledled RhCT yn gyfyngedig iawn."*

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol T. Leyshon:**

Cytunodd y Cynghorydd Leyshon fod y sefyllfa'n rhwystredig ond ychwanegodd fod y Cyngor wedi sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru ac yn ddiweddar wedi sicrhau rownd ychwanegol o gyllid gan Lywodraeth y DU. Serch hynny, nid yw'r Grid Cenedlaethol (Western Power Distribution gynt) wedi paratoi'r cysylltiadau, er i wasanaeth Eiddo'r Cyngor archebu'r cyfleusterau mewn da bryd.

Dywedodd y Cynghorydd Leyshon, o ran y rhaglen ei hun, fod y Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ei ymdrechion ar ddarparu cyfleusterau sydd ar gael i'r cyhoedd ym meysydd parcio'r Cyngor trwy bartneriaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Hyd yn hyn, mae dros 70 o bwyntiau gwefru cerbydau trydan wedi'u gosod mewn 31 o feysydd parcio'r Cyngor ym mhob rhan o'r Fwrdeistref Sirol.

Ailadroddodd y Cynghorydd Leyshon fod y Cyngor yn aros i'r Grid Cenedlaethol bweru'r mannau gwefru, a bod Swyddogion yn gweithio gyda'r cwmni i geisio sicrhau bod y broses osod yn cael ei chwblhau'n gyflym cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Yn ogystal â hynny, dywedodd y Cynghorydd Leyshon fod y cyllid gan Swyddfa Cerbydau Allyriadau Sero (OZEV) Llywodraeth y DU wedi'i ddyfarnu i hwyluso cam pellach o osodiad cyfleusterau gwefru mewn 28 o feysydd parcio ychwanegol sy'n eiddo i'r Cyngor ledled y sir. Gan ragweld cyfleoedd am gyllid pellach yn y dyfodol, mae'r Cyngor wedi cynnig rhestr ychwanegol o safleoedd posibl ar gyfer gosod pwyntiau gwefru, yn bennaf yng ngweithleoedd y Cyngor.

I gloi, dywedodd y Cynghorydd Leyshon fod amrywiaeth o gynlluniau cyllid grant ar gael gan Lywodraeth Cymru ac OZEV, ac mae'r Cyngor yn awyddus i'w defnyddio i wneud cais am arian i'w roi tuag at gost gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan a gwaith cysylltiedig.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.**

**2. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M.D. Ashford i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Pobl Ifainc a'r Gymraeg, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Lewis:**

*"Gyda Llywodraeth Cymru yn ddiweddar wedi cyhoeddi cyllid o dan y Model Buddsoddi Cydfuddiannol ar gyfer yr ysgol newydd ym Mhont-y-clun, a oes modd i'r Aelod o'r Cabinet amlinellu amserlen ar gyfer y gwaith a phryd mae modd i ddisgyblion a thrigolion ddisgwyl i'r cyfleuster newydd agor?"*

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Lewis:**

Dywedodd y Cynghorydd Lewis fod cyllid gan Lywodraeth Cymru wedi arwain at gymeradwyaeth ariannol ar gyfer tri phrosiect ysgol newydd, gan gynnwys y cyfleuster newydd sbon ar gyfer Ysgol Gynradd Pont-y-clun. Ychwanegodd y bydd y cynllun yn cael ei gyflawni o dan y Model Buddsoddi Cydfuddiannol, sef elfen refeniw'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif gynt).

Eglurodd y Cynghorydd Lewis y bydd y gwaith ar gyfer Ysgol Gynradd Pont-y-clun yn golygu bod yr holl adeiladau presennol (gan gynnwys ystafelloedd dosbarth dros dro) yn cael eu dymchwel i godi adeilad ysgol deulawr newydd a chyfleusterau chwaraeon a hamdden – gan gynnwys gwaith tirlunio, draenio a seilwaith. Bydd yr adeilad yn cynnwys dwy ystafell ar gyfer y dosbarth meithrin, dwy ystafell i'r dosbarth derbyn, pum ystafell i'r babanod, naw ystafell i'r adran iau, ardal ganolog a phrif neuadd gyda mannau amrywiol eraill. Bydd mannau chwarae awyr agored caled yn cael eu darparu, ynghyd â dwy Ardal Gemau Aml-ddefnydd a mannau chwarae anffurfiol eraill â glaswellt. Bydd gan y ddau faes parcio gyfanswm o 40 o leoedd parcio (bydd gan 10% ohonyn nhw gyfleuster gwefru cerbydau trydan) a bydd nifer helaeth o fannau storio beiciau yn cael eu darparu. Bydd y safle hefyd yn manteisio ar System Ddraenio Drefol

Gynaliadwy.

I gloi, dywedodd y Cynghorydd Lewis fod y gwaith o adeiladu'r cyfleuster wedi dechrau ym mis Rhagfyr y llynedd a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn dechrau 2025.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.**

**3. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Edwards i Arweinydd y Cyngor – Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

*"Oes modd i'r Arweinydd amlinellu pa gymorth sydd ar gael i helpu trigolion Rhondda Cynon Taf gyda'r argyfwng costau byw?"*

***Ymateb gan Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd A. Morgan:***

Dywedodd y Cynghorydd Morgan, o ran cymorth ariannol, fod staff y Cyngor wedi helpu trigolion i fanteisio ar y Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf, y cynllun Taliadau i'r Teulu (lle bo nhw'n gymwys), yn ogystal â chynlluniau cymorth cenedlaethol eraill.

Dywedodd y Cynghorydd Morgan fod cyfanswm o £16.7 miliwn wedi'i dalu i drigolion ac aelwydydd mewn perthynas â Chynlluniau Costau Byw Llywodraeth Cymru ers mis Ebrill 2022. Yn ogystal â hynny, mae'r Cyngor wedi talu £5.8 miliwn i bron 29,000 o aelwydydd ers mis Hydref 2022 mewn perthynas â Chynllun Cymorth Tanwydd Llywodraeth Cymru. Ychwanegodd fod y Cyngor yn gwneud popeth o fewn ei allu i gefnogi teuluoedd a chartrefi, gan gynnwys cynnig cymorth ariannol ychwanegol drwy'r Cynlluniau Costau Byw yn ôl Disgresiwn. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- Mae'r cynllun yn cynnwys dau daliad (gwerth £50 a £75) i deuluoedd sydd â phlant o oedran addysg gorfodol;
- Mae'r Cyngor hefyd wedi defnyddio cyllid pellach gwerth £50,000 i wneud Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn i aelwydydd sydd angen y mwyaf o gymorth gyda'u costau tai.
- Mae hyn yn ychwanegol at y £404,000 o Daliadau tai yn ôl Disgresiwn a wnaed o'r arian grant a ddyrannwyd i'r Cyngor gan yr Adran Gwaith a Phensiynau;
- Yn ogystal â hynny mae'r Cyngor wedi rhoi £50,000 ychwanegol i fanciau bwyd lleol i'w helpu nhw i barhau i gyflawni eu gwaith hanfodol.
  Daeth yr Arweinydd i'r casgliad bod modd i drigolion ofyn am gymorth ar unrhyw adeg drwy'r Canolfannau Cydnerthedd y Gymuned, neu drwy lenwi 'ffurflen gais am gymorth' ar-lein a bydd cymorth yn cael ei ddarparu gan staff y Cyngor, Gwirfoddolwyr Cydnerth y Gymuned, sefydliadau 3ydd Sector, a phartneriaid cymunedol. Ers mis Hydref 2022, mae'r Canolfannau wedi gweld cyfanswm o 287 o geisiadau gan am gymorth gan drigolion.

**Cwestiwn ategol gan y Cynghorydd J. Edwards:**

*“Oes modd i'r Arweinydd roi rhagor o wybodaeth am y Canolfannau Croeso yn y Gaeaf?”*

**Ymateb gan Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd A. Morgan:**

Rhoddodd yr Arweinydd ddiweddariad a chadarnhaodd fod y Cyngor yn darparu cefnogaeth i sefydliadau cymunedol i agor fel Canolfannau Croeso yn y Gaeaf. Mae'r rhain yn lleoedd lle mae modd i drigolion fynd i gadw'n gynnes, teimlo'n ddiogel, cael sgwrs a chael gwybodaeth a chyngor am beth i'w wneud os ydyn nhw'n wynebu trafferth. Mae 92 o Ganolfannau Croeso yn y Gaeaf ledled Rhondda Cynon Taf, ac ers i’r canolfannau agor yn hwyr y llynedd, rydyn ni'n amcangyfrif bod 3,200 o bobl wedi ymweld â’r cyfleusterau neu wedi'u defnyddio. Dywedodd yr Arweinydd bod mwy na £459,600 wedi'i ddyrannu i gefnogi'r gwasanaethau sydd ar gael.

**4. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Morgans i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

*“Oes modd i'r Arweinydd amlinellu pa fesurau sy’n cael eu hystyried i helpu i bontio’r bwlch o ran ariannu y mae’r Cyngor yn ei wynebu yn y flwyddyn ariannol nesaf?”*

**Ymateb gan Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd A. Morgan:**

Dywedodd yr Arweinydd fod y sefyllfa mae'r Cyngor, yn ogystal â Chynghorau eraill ledled Cymru, yn ei hwynebu o ran y gyllideb yn gwbl ddigynsail. Roedd yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu rho cymaint o arian â phosibl i lywodraeth leol yn y setliad dros dro a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr. Serch hynny, roedd yr Arweinydd o’r farn mai cymorth dros dro fyddai hyn o ystyried y modd y mae Llywodraeth San Steffan yn trin gwasanaethau cyhoeddus.

Rhannodd yr Arweinydd y rhagamcan diweddaraf i'r Cyngor, sef bod y Cyngor yn wynebu bwlch o £38.3 miliwn yn y gyllideb, ychydig yn uwch na'r £36.5 miliwn a adroddwyd ym mis Medi. Mae hyn oherwydd bod y Cyngor yn wynebu pwysau sylweddol parhaus o ran costau. Pwysleisiodd yr Arweinydd pa mor bwysig yw hi i'r Cyngor wneud popeth o fewn ei allu i ddiogelu a blaenoriaethu gwasanaethau statudol craidd, gan gynnwys ysgolion a gofal cymdeithasol. Ychwanegodd fod cyllideb yr ysgolion eisoes wedi gweld cynnydd o 28% dros y 10 mlynedd diwethaf, tra bod cyllideb y Cyngor wedi gweld cynnydd o 11%.

Dywedodd yr Arweinydd fod cam 1 o'r broses ymgynghori ar y gyllideb wedi dod i ben yn ddiweddar a bod Swyddogion bellach yn gweithio i gyflwyno adroddiad i'r Cabinet cyn cynnal ymgynghoriad ar y cynigion terfynol yn y cyfnod cyn mis Mawrth. Ymgysylltwyd â chyfanswm o 1,300 o bobl, gan gynnwys 515 o ymatebion i'r arolwg a 525 o ymatebion i 'boliau cyflym'.

Rhoddodd yr Arweinydd fanylion am rai o’r ymatebion i’r ymgynghoriad:

- Cytunodd 72.6% o'r ymatebwyr y dylai'r Cyngor ddarparu digon o arian i dalu costau cyflog uwch a chostau sydd ddim yn ymwneud â chyflog yn ein hysgolion yn llawn.

- Roedd 91.7% o'r ymatebwyr o'r farn bod y dull cyfredol o sicrhau arbedion effeithlonrwydd yn strategaeth dda

- Dywedodd 84.3% o'r ymatebwyr fod adolygiadau unigol o ffioedd a thaliadau yn ddull gweithredu rhesymol

- Roedd 68.3% o'r farn mai diogelu gwasanaethau trwy gynnydd rhesymol yn Nhreth y Cyngor oedd y dewis gorau, ac mae'n debygol y bydd y Cyngor unwaith eto'n cynyddu treth y cyngor ar un o'r cyfraddau isaf ledled Cymru.

**Dim Cwestiwn Ategol**

**5. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol N. H. Morgan i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd a Gwasanaethau Corfforaethol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol T. Leyshon:**

*"A wnaiff yr Aelod perthnasol o'r Cabinet ddatganiad ar bolisi bioamrywiaeth y Cyngor os gwelwch yn dda?"*

**Ymateb y Cynghorydd Leyshon:**

Dywedodd y Cynghorydd Leyshon fod gan y Cyngor hanes helaeth o gyflawni gwelliannau bioamrywiaeth ym mhob rhan o'r sir, yn bennaf o dan fframwaith ei ddyletswydd bioamrywiaeth cyffredinol. Ychwanegodd y bydd hyn yn dwyn ynghyd holl waith bioamrywiaeth y Cyngor, y polisïau defnydd tir sy'n rhan o'r CDLl a'n gwaith o ran Gweithredu dros Natur, y cynllun bioamrywiaeth lleol a ystyriwyd gan Is-bwyllgor Y Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd yn ei gyfarfod diwethaf.

Amlinellodd y Cynghorydd Leyshon y Prosiect Tirweddau Byw sef prosiect sy'n ceisio cysylltu rhwydwaith o safleoedd sy'n gyfoethog mewn bioamrywiaeth ac sy'n cael eu rheoli'n gynaliadwy â chymunedau lleol. Mae cam cyntaf y prosiect yn canolbwyntio ar 29 o safleoedd sy'n eiddo i'r Cyngor. Mae'r rhain wedi'u lleoli ar draws 23 o wardiau ac yn cynnwys ardaloedd cefn gwlad a pharciau, mynwentydd a safleoedd S106 a fabwysiadwyd gan y Cyngor. Mae pob un ohonyn nhw'n darparu cysylltedd cynefin hanfodol ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau â blaenoriaeth.

Eglurodd y Cynghorydd Leyshon fod rheoli mawndiroedd a glaswelltiroedd yn bwysig ar gyfer bioamrywiaeth a storio carbon ac ar hyn o bryd, mae gan 39 o wardiau'r Cyngor ardaloedd ar gyfer rheoli blodau gwyllt. Yn ogystal â hynny, mae'r carfanau Cynllunio a Chefn Gwlad yn parhau i sicrhau cyllid a chyfraniadau S106 yn llwyddiannus ar gyfer cynlluniau sy'n adfer mawnogydd y Cyngor a'u cynefinoedd cyfoethog. Amlygwyd prosiect diweddar yn Hirwaun yn uwchgynhadledd COP26.

Dywedodd y Cynghorydd Leyshon fod rhoi mesurau lliniaru ecolegol a sicrhawyd trwy gytundeb cynllunio ar waith yn faes y mae gan Gyngor Rhondda Cynon Taf 'hanes' sylweddol o'i gyflawni. Defnyddiwyd cytundebau rheoli cynefinoedd hirdymor, fel arfer drwy S106, i sicrhau darpariaeth lliniaru a gwella cynefinoedd ar raddfa fawr. O ganlyniad i hyn, mae dros 1,000 hectar o arwynebedd rheoli cynefinoedd wedi'i neillltuo

I gloi, esboniodd y Cynghorydd Leyshon fod y rhaglen Gweithredu dros Natur yn adnodd ar y we sy'n amlinellu cynlluniau cyfredol ar gyfer adfer byd natur, ac yn rhoi gwybodaeth i gymunedau a gweithwyr proffesiynol. Mae hefyd yn amlinellu nifer o gamau gweithredu mae modd i bobl eu cymryd ac yn rhannu astudiaethau achos ar amrywiaeth o brosiectau lleol.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.**

**6. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. J. Davies i'r Aelod Cabinet ar Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Pobl Ifainc a'r Gymraeg, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Lewis:**

*"Oes modd i'r Aelod o'r Cabinet wneud datganiad ar y tri datblygiad ysgol newydd ar gyfer de'r Fwrdeistref Sirol?"*

**Ymateb gan y Cynghorydd Lewis:**

Ymatalodd y Cynghorydd Lewis rhag darparu'r un manylion yn ei ymateb ag yr oedd wedi'i wneud gyda'i ymateb cynharach i'r Cynghorydd Ashford o ran y model ariannu a'r trefniadau cyflawni ar gyfer y cynllun. Ychwanegodd y bydd y prosiectau'n darparu cyfleusterau addysg newydd sbon ym mhob ysgol ac yn gyfle i'r Cyngor fuddsoddi'n sylweddol unwaith eto drwy'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, a elwid gynt yn Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Lewis fod Morgan Sindall (contractwyr) wedi dechrau gweithio ar y tri safle ond ychwanegodd fod yr amserlenni ychydig yn wahanol ar gyfer Llanilltud Faerdref a Phen-y-gawsi. Bydd cam cyntaf y gwaith yn cynnwys adeiladu'r ysgolion newydd ar bob safle, gyda gwaith allanol yn digwydd unwaith y bydd yr adeiladau ar agor.

Darparodd y Cynghorydd Lewis ddiweddariadau manwl ar gyfer Ysgol Gynradd Llanilltud Faerdref (a ddarperir erbyn gwanwyn 2024) ac Ysgol Gynradd Pen-y-gawsi (a ddarperir erbyn haf 2024), a disgrifiodd y cynigion mewnol ac allanol yn Ysgol Gynradd Llanilltud Faerdref. Bydd y rhain yn cynnwys un ystafell ddosbarth feithrin, un dosbarth derbyn, pedair ystafell ddosbarth babanod a phum ystafell ddosbarth iau - ynghyd ag ardal ganolog a phrif neuadd gyda chyfleusterau ac ardaloedd cefnogi amrywiol.

Tu allan, bydd ardaloedd wedi'u tirlunio a mannau chwarae caled a meddal wedi'u gosod o amgylch yr ysgol gyda chyfanswm o 23 o leoedd parcio (pedwar ohonynt yn fannau gwefru cerbydau trydan) a bydd nifer helaeth o fannau storio beiciau yn cael eu darparu.

Yn achos Ysgol Gynradd Pen-y-gawsi eglurodd y Cynghorydd Lewis y bydd yr holl adeiladau'n cael eu dymchwel er mwyn codi adeilad deulawr newydd yng nghornel ogledd-ddwyreiniol y safle. Bydd yr adeilad yn cynnwys dwy ystafell ddosbarth feithrin, un dosbarth derbyn, tair ystafell ddosbarth i'r babanod a chwe dosbarth i'r disgyblionau, ynghyd ag ardal ganolog a phrif neuadd gyda chyfleusterau ac ardaloedd ategol. Bydd meysydd chwarae caled yn cael eu darparu y tu allan, yn ogystal â chae chwaraeon (7 bob ochr), dwy Ardal Gemau Aml-ddefnydd a meysydd chwarae anffurfiol ar ochr ddeheuol y safle. Bydd cyfanswm o 28 o leoedd parcio (pedwar ohonyn nhw'n fannau gwefru cerbydau trydan) a storfa feiciau helaeth yn cael eu darparu, a bydd y safle hefyd yn cynnwys System Ddraenio Drefol Gynaliadwy.

**Cwestiwn Ategol gan y Cynghorydd S. J. Davies:**

“Oes modd i'r Aelod o'r Cabinet egluro pa fanteision amgylcheddol a ddaw yn sgil yr adeiladau newydd?”

**Ymateb gan y Cynghorydd Lewis:**

Cadarnhaodd y Cynghorydd Lewis y bydd y tri adeilad newydd yn cael eu hadeiladu yn unol â nodau Newid Hinsawdd y Cyngor gyda'r nod o gyflawni Carbon Sero-Net. Mae hwn hefyd yn amod gofynnol gan Lywodraeth Cymru ar bob prosiect Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu.

**7. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol D. Owen-Jones i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

*“Oedd modd i'r Arweinydd roi’r wybodaeth ddiweddaraf am hynt cynlluniau y dyfarnwyd cyllid iddyn nhw o dan y Gronfa Ffyniant Bro?”*

**Ymateb gan Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd A. Morgan:**

Cadarnhaodd y Cynghorydd Morgan fod y Cyngor wedi llwyddo i dderbyn cymeradwyaeth ar gyfer tri phrosiect yn Rownd 1 o Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU ar ddiwedd 2021 gyda chyfanswm cyllid o £20.3 miliwn. Rhoddodd y Cynghorydd Morgan ddiweddariad ar y tri chais llwyddiannus. Mae disgwyl i'r camau cyntaf o'r gwaith i ailddatblygu'r Miwni ym Mhontypridd ddechrau'n fuan, yn dilyn gwaith a wnaed y tu ôl i'r llenni gan garfan Eiddo'r Cyngor mewn cydweithrediad â phartneriaid allanol ar y broses ddylunio a thendro. Deuoli’r A4119 – mae gwaith yn mynd rhagddo ac mae disgwyl iddo gael ei gwblhau yn ystod gwanwyn y flwyddyn nesaf. Mae'r gwaith ar Hwb Trafnidiaeth y Porth hefyd yn mynd rhagddo’n dda a bydd yn cael ei gwblhau’n fuan. Mae trafodaethau wedi'u cynnal gyda Trafnidiaeth Cymru ynghylch rheoli'r safle. Bydd hyn yn darparu cyfnewidfa drafnidiaeth fawr newydd wrth ymyl gorsaf reilffordd y Porth gyda chyfnewidfa fysiau a chyfleusterau y mae mawr eu hangen ar gyfer y Rhondda Fach. Cadarnhaodd yr Arweinydd fod y tri datblygiad yn gwneud cynnydd da, mae dau ar y gweill gyda'r trydydd yn cychwyn yn fuan, a'r pedwerydd cais yn aros am gymeradwyaeth gan Lywodraeth y DU. Amlinellodd yr Arweinydd y pedwerydd prosiect, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer Tresalem yng Nghwm Cynon. Y bwriad yw adeiladu unedau diwydiannol mawr eu hangen ynghyd â chyfleuster Parcio a Theithio ochr yn ochr â'r unedau. Nododd yr Arweinydd fod y Cyngor yn aros yn eiddgar am ganlyniad y pedwerydd cais.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol oherwydd bod yr amser a neilltuwyd wedi dod i ben.**

**69 Rhaglen Waith y Cyngor 2022/23 - er gwybodaeth**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu Raglen Waith y Cyngor ar gyfer Blwyddyn 2022/23, a dywedodd y byddai Dadl Flynyddol yr Arweinydd a oedd wedi'i threfnu ar gyfer cyfarfod y Cyngor ym mis Chwefror bellach yn ffurfio rhan o gyfarfod arbennig y Cyngor cyn diwedd y flwyddyn ddinesig. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth hefyd y byddai Cynllun Lles BGC Cwm Taf yn cael ei ychwanegu at raglen waith y

Cyngor yn dilyn ystyriaeth gan y BGC a gwaith rhag-graffu ar yr adroddiad hwnnw gan Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Cwm Taf. Bydd diweddariad ar ofynion busnes y Cyngor yn cael ei ddarparu drwy law Arweinwyr y Grwpiau rhwng nawr a'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB), cyn i'r cyhoeddi'r rhaglen waith ddiwygiedig gael ei chyhoeddi.

## 70 DATGANIAD O GYFRIFON RHONDDA CYNON TAF AC ADRODDIAD ARCHWILIO ALLANOL

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol ei adroddiad sy'n nodi'r Datganiad Cyfrifon Blynyddol ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/2022. Mae'r rhain wedi'u harchwilio ac mae angen i'r Cyngor Llawn eu nodi a'u cymeradwyo ynghyd â barn Archwilio Cymru ar y cyfrifon.

Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y broses gymeradwyo cyfrifon wedi'i gohirio eleni oherwydd mater cenedlaethol sy'n effeithio ar bob llywodraeth leol yn ymwneud â chyfrifo ar gyfer asedau seilwaith a'r gofyniad am reoleiddio na chafodd ei basio tan 2 Rhagfyr 2022. Dywedodd y Cyfarwyddwr nad oedd modd i Archwilio Cymru ddod i'r cyfarfod heno ac mae'r swyddogion wedi ymddiheuro. Serch hynny, maen nhw wedi darparu eu hadroddiad ar y cyfrifon sy'n nodi barn lân a diamod o ran archwilio. Ychwanegodd fod nifer fach o ddiwygiadau wedi'u gwneud sydd wedi'u cynnwys yn y cyfrifon fel maen nhw wedi'u cyflwyno.

I gloi, dywedodd y Cyfarwyddwr fod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi adolygu'r cyfrifon a dod i'r casgliad na chodwyd unrhyw faterion i atal y Cyngor rhag cymeradwyo'r cyfrifon ger ei fron.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD**:

(a) Cymeradwyo a nodi Datganiad o Gyfrifon Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (Atodiad 1), a'r Llythyr Cynrychiolaeth cysylltiedig (Atodiad 2).

(b) Cymeradwyo a nodi safle alldro terfynol y Cyngor, sydd wedi'i archwilio, ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 a lefel y Balansau Cyllid Cyffredinol (paragraff 8.4 o'r adroddiad); ac

(c) Nodi ystyriaethau a sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ar 7 Medi 2022, fel sy'n ofynnol yn y Mesur Llywodraeth Leol (paragraffau 11.1 ac 11.2).

## 71 ADRODDIAD BLYNYDDOL CRONFA DEDDF EGLWYS CYMRU 2021/22

Yn ei adroddiad, gofynnodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol am gymeradwyaeth y Cyngor mewn perthynas ag adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon ariannol Cronfa Deddf Eglwys Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022; yn dilyn cwblhau proses archwilio a barn archwilio ddiamod; a **PHENDERFYNWYD**:

(a) Trafod adroddiad yr Archwiliwr Allanol – “Cynllun Archwilio 2021- 22” (Atodiad 1);

(b) Trafod adroddiad yr Archwiliwr Allanol – “Adroddiad Archwilio Cyfrifon” (Atodiad 2);

(c) Cymeradwyo a nodi Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol Cronfa Deddf Eglwys Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/2022 (Atodiad 3);

(ch) Cymeradwyo a nodi'r Llythyr o Gynrychiolaeth mewn perthynas â Chronfa Deddf Eglwys Cymru (Atodiad 4).

**72 CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH Y CYNGOR**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol wybod bod yr adroddiad yn cynrychioli'r gofyniad blynyddol i'r Cyngor fabwysiadu Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor erbyn 31 Ionawr 2023. Ychwanegodd ei fod yn gynllun Llywodraeth Cymru cenedlaethol gyda nifer fach o ostyngiadau lleol fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr fod y Cyngor wedi ymgynghori ar y gostyngiadau lleol yn rhan o broses ymgynghori gyffredinol y Cyngor ar y gyllideb.

I grynhoi, rhoddodd y Cyfarwyddwr wybod bod y cynllun arfaethedig yn unol â'r hyn sydd wedi'i fabwysiadu ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol gyda diweddariadau priodol sydd yn unol â chyfraddau uwchraddio cenedlaethol.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**:

a) Nodi a mabwysiadu darpariaethau'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig ac unrhyw newidiadau sydd i'w gwneud i'r rheoliadau hynny oherwydd y Rheoliadau Diwygio fel Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor lleol y Cyngor ar gyfer 2023/24, yn amodol ar y gostyngiadau lleol y gall y Cyngor eu gweithredu;

b) Nodi canlyniad y broses ymgynghori a gynhaliwyd gan y Cyngor ar y gostyngiadau lleol sy'n berthnasol i'r Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor ar gyfer 2023/24; a

c) Cadarnhau'r gostyngiadau sy'n berthnasol i Gynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor lleol y Cyngor ar gyfer 2023/24, fel sydd wedi'i nodi ym mharagraff 5.3 (Tabl 2) yr adroddiad yma.

**73 Premiwm Treth y Cyngor**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol ei adroddiad a roddodd gyfle i'r Cyngor drafod argymhelliad y Cabinet mewn perthynas â'r cynnig i gyflwyno Premiwm Treth y Cyngor ar gyfer Eiddo Gwag Tymor Hir ac Ail Gartrefi.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr wybod bod y cynnig wedi bod yn destun ymgynghoriad yn barod, a bod adborth yr ymgynghoriad wedi'i atodi i'r adroddiad. Ychwanegodd mai'r prif amcan, fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad, yw gwneud yn fawr o argaeledd cartrefi fforddiadwy ledled y

Fwrdeistref Sirol, yn unol â'r Strategaeth Cartrefi Gwag sydd wedi'i diweddaru ac yng ngoleuni'r asesiad o'r farchnad dai leol.

Aeth y Cyfarwyddwr ati i grynhoi'r cynigion: cyflwyno premiwm treth y cyngor ar gyfer eiddo gwag tymor hir, sef 50% ar gyfer eiddo sydd wedi bod yn wag rhwng 1 a 2 flynedd. Byddai'r premiwm yma'n cynyddu i 100% ar gyfer eiddo sydd wedi bod yn wag am fwy na 2 flynedd. Byddai hyn yn dod i rym o 1 Ebrill 2023. Ychwanegodd fod tua 1,700 o eiddo o'r fath ac mae 1,300 ohonyn nhw wedi bod yn wag ers dros 2 flynedd. Ar gyfer ail gartrefi (tua 350 ohonyn nhw), cynigir premiwm o 100%, a hynny i ddod i rym o 1 Ebrill 2024.

I grynhoi, nododd y Cyfarwyddwr fod y Cabinet wedi trafod premiwm o'r fath, ac wedi'i argymell i'r Cyngor, fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

Croesawodd yr Aelodau y cynigion i gyflwyno Premiwm Treth y Cyngor ar gyfer Eiddo Gwag Tymor Hir ac Ail Gartrefi, fel sydd wedi'i argymell gan y Cabinet ac yn dilyn trafodaeth, atebodd y Cyfarwyddwr nifer o gwestiynau. Pe byddai'r Cyngor yn cymeradwyo'r cynigion, cadarnhaodd y bydden nhw'n cael eu hadolygu yn rhan o'r Strategaeth Cartrefi Gwag. Eglurodd y Cyfarwyddwr fod eithriadau premiymau Treth y Cyngor, fel sydd wedi'i nodi yn nhabl 1 ar atodiad 2, yn cael eu llunio gan Lywodraeth Cymru sydd hefyd wedi darparu canllawiau mewn perthynas â helpu Cynghorau i roi'r eithriadau ar waith.

O ran yr eithriadau ac yn rhan o'r broses ymgynghori, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr fod y Cyngor wedi cysylltu'n uniongyrchol â pherchennog pob eiddo gwag gan roi gwybod lle mae modd gweld yr wybodaeth berthnasol.

**PENDERFYNWYD** bod y Cyngor yn cytuno â'r cynnig i gyflwyno Premiwm Treth y Cyngor ar gyfer Eiddo Gwag Tymor Hir ac Ail Gartrefi, fel sydd wedi'i argymell gan y Cabinet yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2022.

## 74 Hunanasesiad Blynyddol 2021/22 (Cynnwys Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol y Cyngor)

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad sy'n nodi hunanasesiad blynyddol y Cyngor ar gyfer 2021/22, a hynny ar ôl i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei drafod yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2022. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud hi'n ofynnol bod drafft o'r hunanasesiad ar gael i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei adolygu cyn i'r Cyngor ei drafod. Ar ôl i'r Cyngor ei gymeradwyo, rhaid ei gyhoeddi cyn pen 4 wythnos o lunio'r fersiwn derfynol.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at baragraff 3.2 yr adroddiad sy'n nodi'r ddyletswydd berthnasol yn y Ddeddf sy'n cael ei bodloni trwy hunanasesiad ac sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i bob Cyngor yng Nghymru adolygu i ba raddau y mae'n bodloni gofynion cyflawniad y Ddeddf, hynny yw i ba raddau y mae'n cyflawni ei swyddogaethau'n

effeithiol, yn defnyddio ei adnoddau mewn modd economaidd, effeithlon ac effeithiol ac yn sicrhau bod ei faterion llywodraethu'n effeithiol.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr, fel y mae Aelodau'n gwybod, fod gan y Cyngor yma hanes cryf o hunanymwybyddiaeth a hunanfyfyrdod ac felly mewn sefyllfa dda i ymateb i ofynion y Ddeddfwriaeth. Gan mai dyma'r hunanasesiad statudol cyntaf o dan y ddeddfwriaeth heb fodel rhagnodedig ar waith, nododd fod yr adroddiad gerbron yr Aelodau yn cynnwys llawer o wybodaeth am gyflawniad sy'n cael ei rhoi i Aelodau'n rheolaidd mewn nifer o ffyrdd gwahanol. Mae hyn yn cael ei wneud trwy adroddiadau cyflawniad chwarterol, yn ogystal â nifer o adroddiadau eraill i'r Cyngor a'r Cabinet mewn perthynas â pholisïau ac adborth rhanddeiliaid.

Gan fod y cyfnod asesu'n cynnwys y pandemig, nododd y Prif Weithredwr ei fod yn adlewyrchu'r newid i drefniadau cyflawniad y Cyngor yn ystod y cyfnod yma. Mae hefyd yn cynnwys manylion am ei ganolbwynt uniongyrchol ar wasanaethau a'i ymateb a mesurau adfer wrth fynd ati mewn ffordd gadarn i fonitro gwaith cyflawni ei flaenoriaethau. Mae hyn i'w weld yn yr adroddiad. Cyfeiriodd at ofynion y Cyngor i fod yn gyfrifol am wella, i fyfyrio ar gyflawniad a chymryd camau er mwyn gwella'r system. Ychwanegodd fod y Cyngor yma mewn sefyllfa dda i fodloni'r gofyniad hwnnw o ganlyniad i'w drefniadau cyflawniad hunanwerthuso cryf sydd wedi bod ar waith ers 2016.

Mae hunanasesiad 2021/22 yn cynrychioli'r cyfle i ystyried gwasanaethau a swyddogaethau corfforaethol y Cyngor, yn ogystal â chadernid y trefniadau rheoli a monitro sydd ar waith. Mae hefyd yn rhoi sicrwydd i Aelodau fod y Cyngor yn bodloni ei ofynion statudol i fyfyrio ar gyflawniad a chymryd camau gweithredu er mwyn gwella lle bo angen.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn dilyn trafod hunanasesiad y Cyngor a phenderfynu peidio â gwneud newidiadau sylweddol i'r asesiad. Roedd y pwyllgor wedi gofyn am sicrwydd bod modd i'r Cyngor fynd i'r afael â'r heriau sydd wedi'u nodi yn y naw thema allweddol yn yr hunanasesiad a'r bartneriaeth drawsbynciol sydd ei hangen er mwyn i'r Cyngor ymateb i'r themâu.

I grynhoi, yn unol â'r dystiolaeth sydd wedi'i darparu, nododd y Prif Weithredwr fod modd i'r Cyngor ddangos ei fod yn bodloni gofynion cyflawniad Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2021.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD**:

1. Ystyried bod yr Hunanasesiad drafft yn adlewyrchiad cywir a chadarn o sefyllfa'r Cyngor a'i wasanaethau, a'i fod yn bodloni gofynion Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021;

2. Ystyried arsylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 7 Rhagfyr 2022;

3. Cymeradwyo Hunanasesiad Blynyddol 2021/22, gan gynnwys Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol y Cyngor, a'i gyhoeddi cyn pen pedair wythnos o gael ei gymeradwyo.

**75 PECYNNAU YMDDEOL YN GYNNAR O WIRFODD A DISWYDDO AR GYFER PRIF SWYDDOGION**

Yn dilyn argymhelliad gan Banel Ymddeol yn Gynnar o Wirfodd y Cyngor, nododd y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol y gofynnir am gymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer pecyn diswyddo ar gyfer Prif Swyddogion (fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad) yn unol â datganiad Polisi Cyflogau'r Cyngor ar gyfer 2022/23 sydd wedi'i gymeradwyo.

Yn dilyn trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo pecyn diswyddo ar gyfer Prif Swyddogion (fel sydd wedi'i nodi yn Atodiad 1 yr adroddiad) yn unol â datganiad Polisi Cyflogau'r Cyngor ar gyfer 2022/23, sydd wedi'i gymeradwyo.

**76 Newid Aelodaeth Pwyllgorau**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu wybod am y newidiadau i gynrychiolaeth Grŵp Annibynnol RhCT ar y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2022/23.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD** nodi bod:

1. Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Powell yn cael ei enwebu yn lle Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W. Owen ar y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu;

2. Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W. Owen yn cael ei enwebu yn lle Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Powell ar y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

**77 Rhybudd O Gynnig**

**Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol:** R. Williams, S. Emanuel, L. Addiscott, M. D. Ashford, J. Barton, D. R. Bevan, J. Bonetto, S. Bradwick, J. Brencher, G. Caple, J. Cook, A. Crimmings, S. J. Davies, R. Davis, A. J. Dennis, V. Dunn, E. L. Dunning, J. Edwards, J. A. Elliott, L. Ellis, R. Evans, A. S. Fox, B. Harris, S. Hickman, G. Holmes, G. Hopkins, W. Hughes, G. Jones, G. O. Jones, R. R. Lewis, W. Lewis, C. Leyshon, M. Maohoub, C. Middle, A. Morgan, N. H. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen-Jones, D. Parkin, S. Powderhill, C. Preedy, S. Rees, A. Roberts, J. Smith, G. Stacey, L. A. Tomkinson, W. Treeby, J. Turner, G. L. Warren, K. Webb, M. Webber, D. Williams, G. E. Williams, T. Williams, R. Yeo.

Er nad yw'n glir o ddarllen Datganiad yr Hydref y Canghellor yn ddiweddar, mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau na fydd ei hadolygiad o'r Cynllun Rhyddhad ar Filiau Ynni ar gyfer busnesau a chwsmeriaid annomestig yn parhau y tu hwnt i fis Mawrth 2023.

Hyd yma, nid yw Llywodraeth San Steffan wedi cyhoeddi p'un a fydd unrhyw gynllun arall yn cael ei roi ar waith ac nid yw'r Llywodraeth wedi rhannu pa fath o gymorth byddai cynllun o'r fath yn ei gynnwys. Wrth gwrs, mae hyn yn broblemus i fusnesau a sefydliadau cyhoeddus.

Bydd dod â'r cymorth ynni yma i ben yn golygu y bydd angen defnyddio rhan helaeth o’r cyllid sy'n cael ei ddarparu ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus er mwyn talu'r cynnydd sylweddol mewn biliau ynni ar gyfer canolfannau hamdden, canolfannau cymuned ac efallai adeiladau cyhoeddus eraill. Mae'r Cyngor yma yn Rhondda Cynon Taf yn wynebu cynnydd gwerth 355% mewn costau ynni. Ni fydd gan sefydliadau cyhoeddus unrhyw eglurder hyd nes y bydd cyhoeddiad yn cael ei wneud, a fydd dim modd iddyn nhw gynllunio ar gyfer pwysau ar gyllidebau.

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gynyddu budd-daliadau (yr eithriad nodedig yw'r Lwfans Tai Lleol). Fodd bynnag, trwy beidio â rhoi'r cyllid sydd ei angen ar y cymunedau yma er mwyn iddyn nhw gadw'r goleuadau ymlaen mewn adeiladau i'r gymuned hollbwysig, mae hyn fel talu'r hen a dwyn y newydd.

Rydyn ni'n annog Llywodraeth y DU i ailystyried ei pholisi aneglur ynghylch cymorth ynni ar gyfer y sector cyhoeddus tu hwnt i fis Mawrth 2023.

Yn ogystal â hyn, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi y bydd toriadau o ran y cymorth sydd ar gael i aelwydydd mewn tlodi tanwydd y gaeaf nesaf.

Er bydd y Cynllun Gwarant Pris Ynni yn parhau i roi cap ar gost uned o ynni, bydd pob bil ynni yn cynyddu o 1 Ebrill 2023 - bydd y Cynllun Cymorth Biliau Ynni'n dod i ben ar yr un pryd.

Mae'r Cyngor yma'n nodi:

- Bydd eithrio Cynghorau a sefydliadau'r sector cyhoeddus o'r Cynllun Rhyddhad ar Filiau Ynni yn achosi caledi ariannol sylweddol ar adeg pan fydd sawl ffactor arall yn cyfrannu at heriau digynsail mewn perthynas â'r gyllideb.

Mae'r Cyngor yma, felly, yn penderfynu:

- Gofyn bod Arweinydd y Cyngor yn ysgrifennu at Ganghellor y Trysorlys a'r Prif Weinidog

- Galw ar Lywodraeth y DU i roi eglurder ar unwaith ynghylch ei chynlluniau i gyflwyno cynllun rhyddhad ynni i'r sector cyhoeddus y tu hwnt i fis Mawrth 2023.

- Galw ar Lywodraeth San Steffan i fynd cam ymhellach er mwyn helpu'r miliynau o gartrefi sy'n wynebu tlodi tanwydd trwy gydol 2023.

Yn y cyfarfod cyhoeddodd y Cadeirydd, yn unol â Rheol Gweithdrefn 10.4.1 y Cyngor, fod y diwygiad canlynol i'r Rhybudd o Gynnig wedi'i dderbyn oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol K Morgan, D Grehan, S Evans, A Rogers, A Ellis, H Gronow, D Wood a P Evans.

Roedd y Cynnig Diwygiedig yn nodi:

Er nad yw'n glir o ddarllen Datganiad yr Hydref y Canghellor yn ddiweddar, mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau na fydd ei hadolygiad o'r Cynllun Rhyddhad ar Filiau Ynni ar gyfer busnesau a chwsmeriaid annomestig yn parhau y tu hwnt i fis Mawrth 2023.

Hyd yma, nid yw Llywodraeth San Steffan wedi cyhoeddi p'un a fydd unrhyw gynllun arall yn cael ei roi ar waith ac nid yw'r Llywodraeth wedi rhannu pa fath o gymorth byddai cynllun o'r fath yn ei gynnwys. Wrth gwrs, mae hyn yn broblemus i fusnesau a sefydliadau cyhoeddus.

Bydd dod â'r cymorth ynni yma i ben yn golygu y bydd angen defnyddio rhan helaeth o’r cyllid sy'n cael ei ddarparu ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus er mwyn talu'r cynnydd sylweddol mewn biliau ynni ar gyfer canolfannau hamdden, canolfannau cymuned ac efallai adeiladau cyhoeddus eraill. Mae'r Cyngor yma yn Rhondda Cynon Taf yn wynebu cynnydd gwerth 355% mewn costau ynni. Ni fydd gan sefydliadau cyhoeddus unrhyw eglurder hyd nes y bydd cyhoeddiad yn cael ei wneud, a fydd dim modd iddyn nhw gynllunio ar gyfer pwysau ar gyllidebau.

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gynyddu budd-daliadau (yr eithriad nodedig yw'r Lwfans Tai Lleol). Fodd bynnag, trwy beidio â rhoi'r cyllid sydd ei angen ar y cymunedau yma er mwyn iddyn nhw gadw'r goleuadau ymlaen mewn adeiladau i'r gymuned hollbwysig, mae hyn fel talu'r hen a dwyn y newydd.

Rydyn ni'n annog Llywodraeth y DU i ailystyried ei pholisi aneglur ynghylch cymorth ynni ar gyfer y sector cyhoeddus tu hwnt i fis Mawrth 2023.

Yn ogystal â hyn, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi y bydd toriadau o ran y cymorth sydd ar gael i aelwydydd mewn tlodi tanwydd y gaeaf nesaf.

Er bydd y Cynllun Gwarant Pris Ynni yn parhau i roi cap ar gost uned o ynni, bydd pob bil ynni yn cynyddu o 1 Ebrill 2023 - bydd y Cynllun Cymorth Biliau Ynni'n dod i ben ar yr un pryd.

Mae'r Cyngor yma'n nodi:

- Bydd eithrio Cynghorau a sefydliadau'r sector cyhoeddus o'r Cynllun Rhyddhad ar Filiau Ynni yn achosi caledi ariannol sylweddol ar adeg pan fydd sawl ffactor arall yn cyfrannu at

heriau digynsail mewn perthynas â'r gyllideb.

Mae'r Cyngor yma, felly, yn penderfynu:

- Gofyn bod Arweinydd y Cyngor yn ysgrifennu at Ganghellor y Trysorlys a'r Prif Weinidog.
- Galw ar Lywodraeth y DU i roi eglurder ar unwaith ynghylch ei chynlluniau i gyflwyno cynllun rhyddhad ynni i'r sector cyhoeddus y tu hwnt i fis Mawrth 2023.
- Galw ar Lywodraeth San Steffan i fynd cam ymhellach er mwyn helpu'r miliynau o gartrefi sy'n wynebu tlodi tanwydd trwy gydol 2023.
- Gofyn bod Arweinydd y Cyngor hefyd yn ysgrifennu mewn perthynas â'r mater yma at Aelodau Seneddol ar gyfer RhCT sydd wedi'u hethol i'n cynrychioli ni yn San Steffan.

Yn unol â Rheolau Gweithdrefn 12.7 y Cyngor, cynhaliwyd pleidlais ar ôl galw enwau'r Cynghorwyr mewn perthynas â'r diwygiad i'r Rhybudd o Gynnig a **PHENDERFYNWYD** peidio â mabwysiadu'r diwygiad.

(**Nodwch**: gofynnodd y Cynghorwyr canlynol am nodi eu bod wedi pleidleisio o blaid y diwygiad:

Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol Sera Evans, D Grehan, H Gronow, K Morgan, A Rogers a D Wood).

Yn dilyn trafodaeth mewn perthynas â'r cynnig gwreiddiol ac yn unol â Rheolau Gweithdrefn 12.7 y Cyngor, **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r cynnig gwreiddiol.

(**Nodwch**: gofynnodd y Cynghorwyr canlynol am nodi eu bod wedi pleidleisio o blaid y cynnig gwreiddiol:

Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol M Maohoub, Sera Evans, D Grehan, H Gronow, K Morgan, A Rogers a D Wood).

**78 TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod yma'n cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 12 a 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**79 STRWYTHUR UWCH ARWEINWYR Y CYNGOR**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol drosolwg o'i adroddiad i'r Aelodau a oedd yn cynnwys gwybodaeth eithriedig.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi:

1.1 Bod y Cabinet wedi cymeradwyo'r strwythurau cyfarwyddiaeth diwygiedig a ddangosir yn Atodiadau 2(i), 2(ii) a 2(iii) fydd yn cael eu gweithredu o 19 Ionawr 2023 a'r strwythur yn Atodiad 3(i) yn cael ei weithredu o 1 Medi 2023. Er cyflawnrwydd, nodwch fod Atodiad 2 (iv) hefyd wedi'i restru ond does dim newidiadau i'r strwythur presennol yma.

1.2 Bydd gweithredu'r strwythurau diwygiedig yma'n rhoi gostyngiad amcangyfrifedig o £78,000 mewn costau rheoli blynyddol ar lefel Uwch Reolwyr (sy'n cynnwys argostau);

1.3 Bod y Cabinet wedi awdurdodi'r diwygiad i'r swyddi canlynol, yn sgil y strwythurau cyfarwyddiaeth diwygiedig sydd wedi'u hamlinellu yn 1.1.1:

i. diwygio swydd y Cyfarwyddwr – Ffyniant a Datblygu (Cyfarwyddwr Lefel 2) i Gyfarwyddwr – Ffyniant a Datblygu (Cyfarwyddwr Lefel 1);

ii. diwygio swydd Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned (Cyfarwyddwr Lefel 2) i Gyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned (Cyfarwyddwr Lefel 1);

iii. diwygio swydd Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Cyfreithiol (Cyfarwyddwr Lefel 2) i Gyfarwyddwr – Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (Cyfarwyddwr Lefel 1);

iv. creu swydd Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran – Cyllid a Gwasanaethau Digidol a Rheng Flaen (gradd Cyfarwyddwr Cyfadran);

v. creu swydd Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Cymdeithasol (Cyfarwyddwr Lefel 1);

vi. creu swydd Cyfarwyddwr – Priffyrdd, Gofal y Strydoedd a Gwasanaethau Trafnidiaeth (Cyfarwyddwr Lefel 2);

vii. newid teitl swydd yn unig o Bennaeth Diogelu a Safonau (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1) i Bennaeth Gwasanaeth – Partneriaethau (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1).

2 Gofynnir i'r Cyngor ystyried yn ffurfiol yr argymhellion canlynol a gafodd eu gwneud gan y Pwyllgor Penodiadau yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ionawr 2023:

2.1 Ystyried yn ffurfiol yr argymhelliad wedi'i wneud gan y Pwyllgor Penodiadau ar 10 Ionawr 2023 i'r Cyngor, fod swydd Cyfarwyddwr – Ffyniant a Datblygu (Cyfarwyddwr Lefel 1) yn cael ei neilltuo i Mr Simon Gale yn unol â phroses rheoli newid y Cyngor, a hynny o 19 Ionawr 2023;

2.2 Ystyried yn ffurfiol yr argymhelliad wedi'i wneud gan y Pwyllgor

Penodiadau ar 10 Ionawr 2023 i'r Cyngor, fod swydd Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned (Cyfarwyddwr Lefel 1) yn cael ei neilltuo i Mrs Louise Davies yn unol â phroses rheoli newid y Cyngor, a hynny o 19 Ionawr 2023;

2.3 Ystyried yn ffurfiol yr argymhelliad wedi'i wneud gan y Pwyllgor Penodiadau ar 10 Ionawr 2023 i'r Cyngor, fod swydd Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (Cyfarwyddwr Lefel 1) yn cael ei neilltuo i Mr Andrew Wilkins yn unol â phroses rheoli newid y Cyngor, a hynny o 19 Ionawr 2023;

2.4 Ystyried yn ffurfiol yr argymhelliad wedi'i wneud gan y Pwyllgor Penodiadau ar 10 Ionawr 2023 i'r Cyngor, fod Mr Barrie Davies yn cael ei benodi i swydd Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran – Cyllid a Gwasanaethau Digidol a Rheng Flaen (gradd Cyfarwyddwr Cyfadran) yn dilyn y broses gyfweld angenrheidiol, a hynny o 19 Ionawr 2023;

2.5 Nodi os bydd y penodiad yn 1.2.4 yn cael ei gadarnhau gan y Cyngor, bydd Mr Barrie Davies yn parhau i gyflawni rôl statudol Prif Swyddog Cyllid (Swyddog Adran 151), a hynny ar ôl i'r Cyngor llawn neilltuo'r swyddogaeth yma i Mr Davies ar 11 Mawrth 2019;

2.6 Ystyried yn ffurfiol yr argymhelliad wedi'i wneud gan y Pwyllgor Penodiadau ar 10 Ionawr 2023 i'r Cyngor, fod Mr Steve Williams yn cael ei benodi i swydd Cyfarwyddwr – Priffyrdd, Gofal y Strydoedd a Gwasanaethau Trafnidiaeth (Cyfarwyddwr Lefel 2) yn dilyn y broses gyfweld angenrheidiol, a hynny o 1 Medi 2023;

3 Argymhellir bod y Cyngor yn rhoi awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol i wneud y newidiadau sydd angen eu gwneud i Gyfansoddiad y Cyngor o ganlyniad i roi'r uchod ar waith.

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.25 pm**

**Y Cynghorydd G Hughes**
**Cadeirydd.**